

OWEN, JOHN JONES (1876 - 1947), cerddor

Enw: John Jones Owen
Dyddiad geni: 1876
Dyddiad marw: 1947
Rhiant: Mary Owen
Rhiant: Hugh Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 2 Mai 1876 ym Mryn-y-coed, Tal-y-sarn, Sir Gaernarfon, mab **Hugh** a Mary Owen; yr oedd yn frawd i **Richard Griffith Owen**, 'Pencerdd Llyfnwy'. Cafodd addysg gerddorol dda, a dysgodd gan'r organ a'r feiola. Bu'n arweinydd côr merched Dyffryn Nantlle a gafodd wobwr yn eisteddfod genedlaethol Caerdydd, 1897. Penodwyd ef yn organydd capel M.C. Tal-y-sarn, ac yn olynnydd i'w dad fel arweinydd y canu. Cyhoeddodd amryw ddarnau cerddorol, a bu ei anthem, 'Llusern yw dy air i'n traed', y ganig, 'Yr Afonig', a 'Lw-li-bei' (i blant) yn boblogaidd. Yn 1921 ymfudodd i Unol Daleithiau'r America, ac yno graddiodd yn Mus.Bac. Penodwyd ef yn organydd a chôrfeistr Eglwys Efengylaidd Wilkesbarre. Gwasanaethodd fel beirniad ac arweinydd cymanfaeodd canu, ac ef oedd arweinydd Côr Meibion Orpheus y dref. Bu farw 21 Ebrill 1947, a chladdwyd ef ym mynwent Mynydd Greenwood, Wilkesbarre.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y *Faner*, Ebrill 1947

Y *Genedl a'r Herald*, Ebrill 1947

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821166

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Griffith, R. D., (1970). OWEN, JOHN JONES (1876 - 1947), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-OWEN-JON-1876>

CC0

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government